Ministry of Justice

# Gweithredu cynnydd i rai o ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

## Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 01 Ebrill 2024

Ministry of Justice

# Gweithredu cynnydd i rai o ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd

Ymateb i'r ymgynghoriad

**Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Cynnwys

**Cynnwys** **1**

**Cyflwyniad a manylion ar gyfer cysylltu** Error! Bookmark not defined.

Cwynion neu sylwadau **Error! Bookmark not defined.**

**Cefndir** Error! Bookmark not defined.

**Crynodeb o'r ymatebion** Error! Bookmark not defined.

**Ymatebion i gwestiynau penodol** Error! Bookmark not defined.

**Asesiad o'r effaith, cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg** **20**

Asesiad o'r effaith **Error! Bookmark not defined.**

Cydraddoldebau **Error! Bookmark not defined.**

Prawf o'r effaith ar y Gymraeg **Error! Bookmark not defined.**

**Casgliad a'r camau nesaf** Error! Bookmark not defined.

**Egwyddorion ymgynghori** Error! Bookmark not defined.

**Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr** **25**

**Atodiad B – Rhestr derfynol o'r newidiadau i ffioedd** **28**

**Atodiad C – Ffioedd sydd heb eu cynnwys** **43**

# Cyflwyniad a manylion ar gyfer cysylltu

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori 'Gweithredu cynnydd i rai o ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd'.

Bydd yn cynnwys y canlynol:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Mae rhagor o gopïau ar gael o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â'r **Tîm Polisi Ffioedd** yn y cyfeiriad isod:

Tîm Polisi Ffioedd / Fees Policy Team
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain / London SW1H 9AJ

**E-bost**: mojfeespolicy@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatiau eraill oddi wrth mojfeespolicy@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# Cefndir

1. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd ledled Cymru a Lloegr, gan ganiatáu i unigolion a busnesau arfer eu hawl gyfansoddiadol i gyfiawnder ac i geisio cymorth mewn materion cyfreithiol. Dyletswydd yr Arglwydd Ganghellor yw sicrhau bod y llysoedd yn cael yr adnoddau i ddarparu eu gwasanaethau'n effeithiol ac yn effeithlon, gan ddiogelu mynediad at gyfiawnder i bawb.

2. Mae ffioedd llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn rhan hanfodol o'r model cyllido ar gyfer GLITEF. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ffioedd yn cael eu pennu fel eu bod yn adennill cost y gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, mae rhai ffioedd yn cael eu gosod yn uwch na'r gost (gelwir y rhain yn 'ffioedd uwch'), er mwyn helpu i sybsideiddio gwasanaethau cysylltiedig lle mae ffioedd yn cael eu gosod yn is na'r gost neu heb gael eu codi o gwbl er mwyn diogelu defnyddwyr sy'n agored i niwed. Ers i ffioedd gael eu cynyddu ddiwethaf yn 2021, mae'r gost am sybsideiddio'r gwasanaethau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau, fel bod lefelau'r costau y mae GLITEF yn eu hadennill wedi gostwng dros amser. Roedd yr incwm a gafwyd o ffioedd yn 2022/23 yn llai na hanner ei gostau rhedeg, ac roedd y diffyg yn cael ei sybsideiddio gan y trethdalwr.

3. Er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y costau a ysgwyddwyd gan GLITEF er 2021 ac i leihau'r effaith ar y trethdalwr, mae'n bwysig cynyddu ffioedd drwy adennill cyfran ddigonol o gostau oddi wrth ddefnyddwyr llysoedd. Drwy gynyddu ffioedd, gellir sicrhau model cyllido mwy cynaliadwy ar gyfer y llysoedd, sy'n hanfodol i alluogi GLITEF i hwyluso mynediad at gyfiawnder i'r rheini sydd ag angen ei wasanaethau.

4. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Gweithredu cynnydd i rai o ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd' ar 10 Tachwedd 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynghylch y cynnig i gyflwyno cynnydd o 10% yn rhai o ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd er mwyn adlewyrchu'n rhannol y newidiadau yn y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) er 2021, pan gafwyd y cynnydd diwethaf mewn ffioedd.[1]. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am farn y cyhoedd am yr egwyddor o gynyddu ffioedd i adlewyrchu newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau, am gwmpas y ffioedd roeddem yn cynnig eu cynyddu, ac am effaith y cynigion ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig.

[1] Ar gyfartaledd, bydd y ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn cynyddu 10%. Fodd bynnag, mae'r cynyddiadau mewn ffioedd wedi cael eu talgrynnu i'r bunt agosaf, felly mae gwerthoedd newydd rhai o'r ffioedd yn hafal i lai na 10% ac mae rhai yn fwy na 10% (ond dim mwy na 12.5%).

5. Gofynnwyd am sylwadau hefyd ynghylch dau gynnig pellach. Y cynnig cyntaf oedd sefydlu dull rheolaidd o ddiweddaru ffioedd bob dwy flynedd, i roi cyfrif am newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau ac yng nghostau GLITEF; a'r ail oedd rhoi ffi y gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor o dan bŵer 'uwch' yr Arglwydd Ganghellor. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i ni osod y ffi ar werth sy'n uwch na'i chost isorweddol i GLITEF i roi cyfrif am amrywiadau rheolaidd yn ei chost, ac felly cadw'r ffi ar ei gwerth presennol o £0.50c.

6. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 22 Rhagfyr 2023 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, yn cynnwys sut roedd y broses ymgynghori wedi dylanwadu ar ffurf derfynol y cynigion a oedd yn destun i'r ymgynghoriad.

7. Diweddarwyd yr asesiad o'r effaith a'r datganiad cydraddoldebau a oedd gyda'r ymgynghoriad er mwyn rhoi ystyriaeth i ddadansoddi pellach a gwblhawyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac adlewyrchu'r ffordd rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen. Mae'r diweddariadau o'r asesiad o'r effaith a'r datganiad cydraddoldebau ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees

8. Mae rhestr o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees

9. Mae'r dewis terfynol o 172 o ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd a gynyddir 10% yn **Atodiad B**. Mae'r nifer hwn yn is na'r 202 o ffioedd y cynigiwyd eu cynyddu 10% yn y ddogfen ymgynghori am y rhesymau canlynol:

    a. Ar ôl ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu peidio â chynyddu'r ffi cais am ysgariad ar hyn o bryd.

    b. Roedd 70 o'r cyfanswm o 202 o ffioedd yn galw am ddadansoddi pellach o'u cost isorweddol ar adeg lansio'r ymgynghoriad. Yn dilyn gwaith pellach a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gallwn gadarnhau y gellir cyflwyno cynnydd o 10% mewn 41 o'r 70 ffi hyn, tra bydd angen gwaith dadansoddi ychwanegol ar gyfer 29 o ffioedd, sydd heb eu cynnwys ar yr adeg hon. Mae rhestr lawn o'r ffioedd sydd heb eu cynnwys yn **Atodiad C**.

# Crynodeb o'r ymatebion

10. Cafwyd cyfanswm o 52 o ymatebion i'r papur ymgynghori. O'r rhain, cafwyd 62% o'r ymatebion gan y rheini sy'n gweithio yn y sector cyfreithiol neu gyhoeddus, a 15 o'r ymatebwyr hyn yn gyfreithwyr a 9 yn gweithio i awdurdodau lleol. Ymysg yr ymatebwyr eraill yr oedd academyddion, aelodau o'r farnwriaeth ac aelodau o'r cyhoedd.
11. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac wedi ystyried effaith y cynigion yng ngoleuni'r themâu a godwyd gan ymatebwyr. Isod ceir crynodeb o'r ymatebion a dadansoddiad manylach o'r ymatebion i bob cwestiwn a'n hymateb ni.

## Crynodeb o'r ymatebion: cynyddu rhai ffioedd

12. Roedd gwahaniaeth barn ymysg ymatebwyr ar yr egwyddor gyffredinol o gynyddu ffioedd. Roedd 40% yn anghytuno, tra oedd 27% yn cytuno ei bod yn deg cynyddu ffioedd o ystyried eu pwysigrwydd i fodel cyllido GLITEF. Roedd 15% pellach heb benderfynu. Mewn cymhariaeth, pan ofynnwyd a ddylid cyflwyno cynnydd o 10% mewn hyd at 202 o'r ffioedd a ddewiswyd i adlewyrchu'n rhannol y newidiadau yn y CPI, roedd 62% o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd 10%, tra oedd 15% yn cytuno. Roedd 21% o ymatebwyr yn ansicr. Roedd y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr yn debyg ar gyfer y ddau gwestiwn. O'r rheini a anghytunai, roedd nifer yn pryderu y byddai cynnydd mewn ffioedd o'r graddau hyn yn atal mynediad at gyfiawnder i'r rhai mwyaf agored i niwed o ystyried y cynnydd mewn costau byw.
13. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo na ellid cyfiawnhau'r cynnydd mewn ffioedd am eu bod yn credu nad yw ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan GLITEF yn cynnig gwerth am arian, gan gyfeirio at ôl-groniadau mewn llysoedd fel un enghraifft o hyn. Er hynny, mae'r rheini sy'n cytuno yn meddwl ei bod yn deg cynyddu ffioedd o ystyried y cynnydd mewn costau, gan ddweud bod angen cyllid ychwanegol ar gyfer GLITEF ac y gallai helpu i wella ansawdd y gwasanaeth.
14. Teimlai 34 o ymatebwyr fod nifer o'r ffioedd sydd yn y cynnig yn rhai na ddylid eu cynnwys. Y ffioedd y cafwyd awgrymiadau amlaf am beidio â'u cynnwys oedd ceisiadau am ysgariad, grantiau profiant a cheisiadau i'r Ganolfan Gorfodaeth Traffig (yn ymwneud ag adennill dyled traffig ffyrdd benodedig). Tynnwyd sylw at nifer o ffioedd eraill (er bod llai o gyfeiriadau atynt), yn cynnwys ceisiadau cyffredinol sifil, rhai ffioedd yn ymwneud â Deddf Plant 1989, gorchmynion ariannol a nifer o wahanol ffioedd gorfodi. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu hefyd am grwpiau cyfan o ffioedd, fel y rheini ar gyfer cyfraith teulu, adolygiadau barnwrol, ffioedd gorfodi a ffioedd a godir yn y Llys Gwarchod.

## Crynodeb o'r ymatebion: diweddaru ffioedd bob dwy flynedd

15. Roedd gwahaniaeth barn yn gyffredinol ymysg ymatebwyr mewn perthynas â'r cynnig i gynyddu ffioedd bob dwy flynedd ar sail chwyddiant. Dywedodd 35% eu bod yn cytuno y byddai dull rheolaidd yn fwy buddiol, tra oedd 40% yn anghytuno â'r cynnig.

16. O'r rheini a gytunai, roedd nifer wedi nodi'r buddion ac yn meddwl bod dull rheolaidd o gynyddu ffioedd yn well na newidiadau yn ôl y galw, gan ei fod yn lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr. Roeddent wedi nodi hefyd y byddai gwybod am newid sydd yn yr arfaeth yn caniatáu i ddefnyddwyr gynllunio eu cyllidebau yn unol â hynny. Fodd bynnag, roedd rhai wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch mynediad at gyfiawnder. Yn achos y rheini a anghytunai â'r cynnig, dywedodd rhai na fyddai'n addas oni bai fod mathau eraill o gostau cysylltiedig fel costau adennilladwy penodedig a chostau gorfodi yn cynyddu ochr yn ochr â'r cynnydd mewn ffioedd. Roedd eraill yn pryderu y byddai dull rheolaidd yn methu â rhoi ystyriaeth ddigonol i fynediad at gyfiawnder ac yn credu, er mwyn tryloywder, y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob tro y mae cynnydd mewn ffioedd yn cael ei ystyried.

17. Mae rhagor o wybodaeth am ymatebion penodol i'r cynnig hwn ar dudalen 16 isod.

## Crynodeb o'r ymatebion: gwneud ffi'r gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn ffi uwch

18. Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr (79%) wedi gwneud sylw am y cynnig hwn. Roedd 10% o'r holl ymatebwyr yn cytuno y dylid gwneud ffi'r gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn ffi uwch, gyda golwg ar gadw ei gwerth presennol o £0.50c. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oedd ganddynt farn am nad oeddent mewn lle i wneud sylw am y ffi hon.

19. Roedd nifer o ymatebwyr a anghytunai neu a oedd heb gynnig barn bendant (12%), ond roedd yn ymddangos eu bod yn camddehongli'r cynnig ac yn cymryd y byddem yn cynyddu'r ffi. Mae ymatebion penodol a rhagor o eglurhad o'r cynnig hwn ar dudalen 17.

## Crynodeb o ymateb y llywodraeth

20. Mae'r llywodraeth yn credu bod cyfiawnhad cryf dros gynyddu ffioedd 10% i adlewyrchu'n rhannol y newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau. Cafodd ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd eu diweddaru ddiwethaf ym Medi 2021, cynnydd a oedd wedi'i seilio ar chwyddiant fel yr oedd ym Mawrth 2021; ond o hynny hyd fis Mawrth 2023, roedd y CPI wedi cynyddu 17.8%. Gan fod y CPI yn mesur newidiadau ym

mhrisiau nwyddau a gwasanaethau, mae'n ddangosydd defnyddiol o'r cynnydd yn y costau yr oedd GLITEF wedi'u hysgwyddo wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn. Yn gyffredinol, mae ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn cael eu pennu er mwyn adennill y gost o ddarparu'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw. Fodd bynnag, gan fod y costau i GLITEF wedi cynyddu o ganlyniad i chwyddiant a bod ffioedd yn cael eu dileu yn achos nifer mawr o ddefnyddwyr llysoedd, dim ond cyfran o'i gostau rhedeg y bydd GLITEF yn ei hadennill. Yn 2022/23, ffioedd a gododd £727 miliwn o gyfanswm costau rhedeg GLITEF o £2.3 biliwn, ac roedd y diffyg wedi'i sybsideiddio gan y trethdalwr.[2] Bydd yr incwm ychwanegol a geir drwy gynyddu ffioedd yn hwyluso ffrwd gyllido fwy cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau GLITEF ac yn sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn parhau i gael ei weinyddu'n effeithiol.

21. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ddiogelu mynediad at gyfiawnder i bawb, ac rydym yn cydnabod bod costau byw wedi cael effaith sylweddol ar nifer mawr o unigolion a busnesau. Dyna pam rydym wedi dewis lleihau'r effaith ariannol o gynyddu ffioedd ar ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd drwy sicrhau bod y cynnydd mewn ffioedd yn adlewyrchu dim ond rhan o'r cynnydd yn y CPI. Mae'r cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd ar gael hefyd i'r rheini sydd â llai o adnoddau ariannol nad ydynt yn gallu fforddio ffi llys ac, ym mis Tachwedd 2023, cyflwynodd y llywodraeth gyfres o ddiwygiadau i wneud y cynllun yn fwy hael i'r rheini sydd mewn angen.[3]

22. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i wella perfformiad llysoedd drwy'r amser, ac yn cydnabod bod ansawdd y gwasanaeth o'r pwys mwyaf i'r rheini sy'n delio â mater cyfreithiol. Bydd yr incwm ychwanegol a godir drwy gynyddu ffioedd yn helpu GLITEF i ddarparu ei wasanaethau a gwella drwy'r amser, yn cynnwys y cam cyflawni olaf yn rhaglen diwygio digidol GLITEF, sydd â'r bwriad o wneud y system llysoedd a thribiwnlysoedd yn fwy hygyrch ac effeithlon.[4]

23. Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a chynnal dadansoddiad pellach o'r costau sy'n sail i'r ffioedd, mae'r llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen i gyflwyno cynnydd o 10% mewn 172 o blith y 202 o ffioedd a gynigiwyd yn wreiddiol. Mae'r ffioedd rydym wedi penderfynu peidio â'u cynyddu yn cynnwys ffi'r cais am ysgariad gan gydnabod yr adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad (gweler paragraffau 47 i 49 am ymateb mwy manwl), a 29 o ffioedd pellach a dynnwyd ar y sail bod angen parhau i ddadansoddi'r gost isorweddol sy'n gysylltiedig â nhw.

---

[2] Dyma gyfanswm yr incwm heb gynnwys ffioedd a ddilëwyd, cyn gwneud ad-daliadau. Ar gael yn: [Annual Report and Accounts 2022-2023 (publishing.service.gov.uk)]

[3] Mae gwybodaeth am y cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd ar gael ymaGet help paying court and tribunal fees – GOV.UK

[4] Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Ddiwygio GLITEF ar gael yma: The HMCTS Reform Programme – GOV.UK

24. Mae'r llywodraeth yn cytuno y byddai dull mwy rheolaidd o ddiweddaru ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd drwy gyfeirio at chwyddiant a chostau GLITEF yn un manteisiol gan y bydd cynyddu ffioedd ar raddfa lai yn lleihau'r effaith ariannol ar y defnyddwyr. Er ein bod wedi penderfynu peidio â chyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar bob adolygiad, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r rheini y mae'n ddyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor ymgynghori â nhw cyn gwneud unrhyw newidiadau mewn ffioedd. Byddwn hefyd yn parhau i asesu ffioedd fesul un ac yn gwneud mathau eraill o newidiadau mewn ffioedd ar seiliau polisi gwahanol y tu allan i'r diweddariadau rheolaidd ar sail costau a chwyddiant.

25. Mae'r llywodraeth hefyd wedi penderfynu ailddatgan ffi'r gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor o dan adran 180 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 fel a gynigiwyd. Bydd hyn yn caniatáu gosod y ffi yn uwch na chost y gwasanaeth sy'n gysylltiedig â hi ('ffi uwch'). Fodd bynnag, rydym yn bwriadu cadw ei gwerth presennol o £0.50c.

# Ymatebion i gwestiynau penodol

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylid cynyddu'r ffioedd yn gyfnodol i adlewyrchu costau cynyddol i GLITEF o ganlyniad i newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau?**

26. Cawsom 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 41% yn anghytuno â'r egwyddor y dylid cynyddu ffioedd yn gyfnodol i adlewyrchu newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau. Y prif themâu a gododd oedd mynediad at gyfiawnder ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan GLITEF. Teimlai nifer o ymatebwyr fod ffioedd eisoes yn rhy ddrud i'r person cyffredin a'u bod yn rhwystr i gyfiawnder, yn enwedig yn achos y rheini sy'n anghymwys i gael Help i Dalu Ffioedd. Soniwyd yn benodol am fenywod fel grŵp defnyddwyr a fyddai'n profi effaith anghymesur gan gynnydd mewn ffioedd oherwydd effaith y cynnydd mewn costau byw. Dadleuai nifer o ymatebwyr na ellir cyfiawnhau cynnydd mewn ffioedd nes ceir gwelliant amlwg ym mherfformiad y gwasanaeth a lleddfu ar yr ôl-groniadau mewn llysoedd.

27. Mewn modd tebyg, roedd nifer o'r rheini a roddodd 'ydw' yn ateb i'r cwestiwn hwn (27%) yn rhannu'r pryderon a godwyd gan y rheini sy'n anghytuno, gan gwestiynu'r effaith y byddai cyllid ychwanegol yn ei chael o ran gwella'r gwasanaeth ac a yw cynnydd mewn ffioedd yn ddigon ar ei ben ei hun. Er hynny, roedd nifer wedi nodi pa mor bwysig oedd cyllido'r llysoedd ac wedi cydnabod bod angen incwm ychwanegol. Credai nifer o ymatebwyr fod y cynnydd yn gymesur o ystyried pwysigrwydd ffioedd llys i gyllid GLITEF a'r cynnydd mewn costau a gafwyd. Roeddent hefyd wedi nodi ei bod yn deg i ddefnyddwyr gyfrannu i'r system drwy dalu ffioedd am wasanaethau.

## Ymateb y llywodraeth

28. Rydym yn cydnabod yr effaith a gafodd y cynnydd mewn costau byw, a dyna pam rydym yn bwriadu adlewyrchu rhan yn unig o'r cynnydd yn y CPI wrth gynyddu ffioedd, yn hytrach na'r cynnydd llawn o 17.8% rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2023. Credwn fod hyn yn dal y ddysgl yn wastad rhwng sicrhau bod ffioedd yn aros yn fforddiadwy a'u cadw'n agosach at y costau cynyddol sy'n cael eu hysgwyddo gan GLITEF.

29. Mae'r cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd ar gael i'r rheini a all fod ar incwm isel, yn ddi-waith, neu'n derbyn budd-daliadau penodol. Yn hydref 2023, ehangodd y llywodraeth y cynllun a chynyddu'r trothwyon incwm a chyfalaf, fel bod mwy o bobl yn gallu cael help ariannol i dalu cost ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae pŵer

hefyd gan yr Arglwydd Ganghellor i hepgor ffi mewn amgylchiadau eithriadol, a'r pŵer hwn ar gael i'r llysoedd ei arfer yn ôl eu disgresiwn.

30. Mae ffioedd yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd, drwy helpu'r Arglwydd Ganghellor i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau bod gan GLITEF yr adnoddau sydd eu hangen arno i weithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau ers cynyddu ffioedd ddiwethaf yn 2021 wedi peri cynnydd mewn costau a mwy o bwysau ariannol o ganlyniad ar GLITEF. Ein hamcangyfrif yw y bydd gweithredu'r cynnydd hwn mewn ffioedd yn codi swm ychwanegol disgwyliedig mewn cyllid a fydd rhwng £30 miliwn a £37 miliwn y flwyddyn, a fydd yn darparu incwm hanfodol ac yn helpu i ddatblygu ffrwd gyllido fwy cynaliadwy i GLITEF. Drwy estyniad, bydd y cynnydd mewn ffioedd yn helpu GLITEF i barhau i ddarparu ei wasanaethau a hefyd yn gostwng lefelau'r sybsideiddio gan y trethdalwr.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor bod cynnydd o 10% ar gyfer hyd at 202 o ffioedd, i adlewyrchu'n rhannol gynyddiadau yn y CPI o fis Mawrth 2021 yn briodol?**

31. Cawsom 51 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62%) yn anghytuno â'r cynnig i gyflwyno cynnydd o 10% yn y ffioedd a ddewiswyd, i roi cyfrif am newidiadau yn y CPI ers diweddaru ffioedd y tro diwethaf ym Mawrth 2021, ac roedd 15% yn cytuno a 21% yn ansicr. Roedd y rheini a gytunai yn teimlo ei bod yn deg cynyddu ffioedd o ystyried y cynnydd yn y CPI ac yn credu bod y cynnydd rhannol yn ystyriol o fynediad at gyfiawnder. Roeddent hefyd wedi awgrymu y byddai'r incwm ychwanegol yn gallu helpu i wella perfformiad y gwasanaeth.

32. Mewn modd tebyg i'r rheini a anghytunai â'r cwestiwn blaenorol, roedd ymatebwyr yn pryderu ynghylch costau byw ac yn teimlo bod cynnydd o 10% yn rhy uchel. Roeddent hefyd yn dadlau nad yw lefel bresennol y perfformiad gan wasanaethau yn cynnig gwerth da am arian i ddefnyddwyr llysoedd, ac felly na ellir cyfiawnhau cynnydd mewn ffioedd oni bai fod y perfformiad yn gwella. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd ei bod yn afresymegol cynyddu ffioedd llysoedd heb adolygu costau cysylltiedig ehangach a thaliadau sy'n gysylltiedig ag adennill dyledion yn ystod proses y llys, fel costau gorfodi a chostau cyfreithiol penodedig y gellir eu hadennill.

33. O'r 11 o ymatebwyr (21%) a oedd yn ansicr neu rhwng dau feddwl, awgrymodd rhai y byddai'n well defnyddio'r Mynegai Chwyddiant Prisiau Cynhyrchwyr Gwasanaethau yn hytrach na'r CPI i fesur hyn, gan ei fod yn adlewyrchu chwyddiant ar draws y sector gwasanaethau a'i fod wedi'i grybwyll yn ddiweddar wrth bennu cynnydd mewn mathau eraill o gostau sy'n gysylltiedig â'r sector cyfreithiol, sef y cynnydd mewn cyfraddau yr awr awgrymedig a chostau penodedig adenilladwy.

## Ymateb y llywodraeth

34. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod y sefyllfa bresennol o ran costau byw wedi effeithio ar y cyhoedd ac mae wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod cyfiawnder yn hygyrch i bawb. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r effaith o gynyddu ffioedd ar fynediad at gyfiawnder, a dyna pam mai dim ond rhan o'r cynnydd yn y CPI sy'n cael ei phasio ymlaen i ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd drwy gynyddu ffioedd, yn hytrach na'r cynnydd llawn o 17.8% a fesurwyd rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2023. Yn ogystal â hyn, mae'r llywodraeth wedi ehangu'r meini prawf cymhwystra yn ddiweddar ar gyfer y cynllun dileu ffioedd Help i Dalu Ffioedd, gan gynyddu'r trothwyon incwm a chyfalaf fel y bydd mwy o bobl yn gallu cael cymorth ariannol wrth ddefnyddio gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

35. Rydym yn cydnabod bod oedi gweinyddol ac ôl-groniadau mewn llysoedd wedi cael effaith ar ddefnyddwyr, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y system gyfiawnder yn effeithlon drwy ymdrechu i'w gwella drwy'r amser. Rydym wedi buddsoddi mewn mentrau newydd i wella amseroldeb prosesau ymgeisio a chynyddu effeithlonrwydd. Rydym hefyd wedi cymryd camau i gynyddu capasiti yn y llysoedd drwy recriwtio barnwyr ychwanegol fel y gellir gwrando mwy o achosion. Bydd y cyllid ychwanegol a godir drwy gynyddu ffioedd yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyllido gwelliannau pellach yn y gwasanaeth, gan sicrhau bod gan GLITEF yr adnoddau sydd eu hangen arno i ddarparu ei wasanaethau mor effeithiol â phosibl.

36. Er nad oes dull mesur cyfatebol wedi'i gyhoeddi ar gyfer GLITEF yn benodol y gellir cyfeirio ato wrth gynyddu ffioedd, credwn mai'r CPI yw'r dewis gorau i fesur newidiadau mewn costau i GLITEF. Mae'r Mynegai Chwyddiant Prisiau Cynhyrchwyr Gwasanaethau yn mesur newidiadau mewn prisiau a gafwyd am wasanaethau proffesiynol a ddarparwyd gan fusnesau'r DU, a hynny'n gymwys i gostau cyngor cyfreithiol, a'r rheini wedi'u dangos drwy gynnydd yn y cyfraddau yr awr awgrymedig a chostau penodedig adenilladwy. Fodd bynnag, mae'r costau a ysgwyddir gan GLITEF am ddarparu gwasanaethau y gellir codi amdanynt drwy ei ffioedd yn rhai sy'n adlewyrchu'r holl weithgareddau isorweddol, yn cynnwys gorbenion, costau staffio a chostau barnwrol. Mae'r CPI yn mesur y cynnydd cyffredinol mewn prisiau sy'n well adlewyrchiad i'r cynnydd mewn costau i GLITEF. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel y mynegai ar gyfer y cynnydd blaenorol mewn ffioedd yn 2021 ac felly mae wedi'i ddewis fel dull mesur er mwyn cysondeb.

**Cwestiwn 3: A oes yna unrhyw ffioedd sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad A na ddylid eu cynyddu 10% fel rhan o'r cynnig hwn?**

37. Cawsom 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd nifer o ymatebwyr wedi crybwyll mwy nag un ffi. Roedd 5 ymatebydd wedi rhoi 'nac oes' yn ateb i'r cwestiwn hwn a 5

ychwanegol wedi dadlau na ddylid cynyddu unrhyw ffioedd o gwbl. Ffioedd penodol a grybwyllwyd oedd: ysgariad; gorchmynion atebolrwydd traffig ffyrdd; profiant; ceisiadau cyffredinol sifil; cyfraith gyhoeddus; gwarantau rheolaeth; gorchmynion ariannol; gorchmynion adran 8; gorchmynion cydsynio cyfraith teulu; gorchmynion atafaelu enillion; a gorchmynion arwystlo. Roedd rhai ymatebwyr hefyd wedi cyfeirio at grwpiau cyfan o ffioedd roeddent yn pryderu yn eu cylch, yn cynnwys ffioedd gorfodi, adolygiadau barnwrol, ffioedd cyfraith teulu, ffioedd yn ymwneud â hawliadau anaf a ffioedd y Llys Gwarchod.

38. Roedd y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr dros beidio â chynyddu'r ffioedd hyn yn ymwneud yn bennaf â pherfformiad gwasanaethau a niwed roedd grwpiau defnyddwyr penodol yn agored iddo. Y ffioedd penodol y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd ysgariad (11), gorchmynion atebolrwydd traffig ffyrdd (6) a phrofiant (5). Mae'r ymatebion sy'n crybwyll y tair ffi hyn wedi'u disgrifio'n fwy manwl isod.

### Ysgariad

39. Roedd nifer o ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch yr effaith o gynyddu'r ffi ysgariad, yn enwedig ar fenywod gan eu bod yn fwy tebygol o wneud cais am ysgariad na dynion.[5] Roeddent wedi nodi bod menywod yn tueddu i wynebu mwy o anawsterau wrth gael hyd i'w ffordd drwy'r system gyfiawnder am ei bod yn bosibl bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ac am eu bod yn fwy tebygol o fod ar incwm is yn ôl yr ystadegau o ganlyniad i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Roedd un ymatebydd hefyd wedi nodi y gallai menywod wynebu effaith anghymesur o ganlyniad i gynnydd yn y ffi ysgariad wrth iddynt gynrychioli ymgeiswyr sy'n derbyn cymorth cyfreithiol sifil. Dadleuai rhai ymatebwyr hefyd fod y ffi yn rhy uchel eisoes ac y byddai nifer mawr o gyplau'n gorfod aros mewn perthynas anhapus neu gamdriniol am na fyddent yn gallu fforddio'r ffi.

40. Nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod gwneud cais am ysgariad yn golygu gwario mewn cyfyngder i lawer, ac nad oes dewis gan y rheini sydd am derfynu eu priodas ond mynd drwy'r llysoedd. Roedd un ymatebydd wedi dyfynnu sylwadau gan gyn-Lywydd Adran Deulu'r Uchel Lys, Syr James Munby yn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder yn 2016 ar ysgariad a phrofiant, yn benodol bod ysgariad yn "farchnad gaeth", heb "ddim elastigedd yn y galw" a bod y rheini sydd am gael ysgariad yn cael eu cosbi am hynny o ganlyniad i ffioedd llys uchel.[6]

41. Roedd rhesymau eraill a nodwyd gan ymatebwyr a wrthwynebai gynnydd yn y ffi ysgariad yn ymwneud â'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig â hi, ac ymatebwyr yn awgrymu bod y ffi bresennol (£593) yn anghymesur yn ôl pob tebyg â chost isorweddol y gwasanaeth. Roeddent wedi nodi bod y prosesau gweinyddol cysylltiedig wedi cael eu

[5] Mae data o holiadur GLITEF ar nodweddion gwarchodedig yn 2023 yn dangos mai menywod oedd 67.4% o'r ymatebwyr i'r holiadur a wnaeth gais ar-lein am ysgariad – GOV.UK

[6] Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: Courts and tribunals fees (parliament.uk)

symleiddio drwy gyflwyno gwasanaeth digidol ac ysgariadau heb fai, sy'n golygu nad oes gofyniad bellach i gyplau sy'n gwahanu briodoli bai wrth wneud cais am ysgariad, a bod hynny'n golygu hefyd na ellir herio'r cais heb gyfiawnhad.

Gorchmynion Atebolrwydd Traffig Ffyrdd (RTLOs)

42. O'r 9 awdurdod lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn, roedd 6 wedi awgrymu y byddai cynyddu'r ffi RTLO yn rhoi eu cyllidebau o dan bwysau ariannol ychwanegol. Roeddent yn dadlau y byddai cyflwyno cynnydd mewn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt dorri cyllidebau gwasanaethau hanfodol eraill fel gwasanaethau bysiau rhatach ar gyfer y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, yn cynnwys yr henoed a'r rheini sydd ag anableddau. Roedd nifer o ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch sut byddai ffioedd RTLO mwy yn cymharu â gwerth Hysbysiadau Taliadau Cosb, ond mae'r sylwadau hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

**Profiant**

43. Roedd pum ymatebydd wedi anghytuno â'r cynnig i gynyddu'r ffi profiant ar sail lefelau perfformiad y gwasanaeth presennol. Gwnaethant sylwadau hefyd am ddigideiddio ceisiadau am brofiant a dweud y dylai'r camau i symleiddio'r broses weinyddu fod wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yng nghost y gwasanaeth cysylltiedig.

44. Yn yr un modd â phryderon a godwyd mewn perthynas â'r ffi ysgariad, cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr am y diffyg dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr wrth gael mynediad at arian sydd wedi'i adael iddynt. Teimlai un ymatebydd fod ffioedd profiant yn ychwanegu at yr effaith ariannol ar deuluoedd sydd mewn profedigaeth, yn enwedig os yw hynny ar ben y dreth etifeddiant y bydd rhai defnyddwyr yn gorfod ei thalu.

## Ymateb y llywodraeth

45. Codir ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd i sicrhau bod digon o gyllid gan GLITEF i ddarparu ei wasanaethau'n effeithiol. Ers eu diweddaru ddiwethaf yn 2021, mae'r gost i GLITEF am weinyddu ei wasanaethau wedi cynyddu. O ganlyniad i hyn, mae lefelau'r gost a gafodd ei hadennill wedi gostwng dros amser, ac mae model cyllido GLITEF wedi dod yn llai cynaliadwy. Drwy gynyddu ffioedd i adlewyrchu newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau ers eu diweddaru ddiwethaf yn 2021, bydd mwy o allu i ddiogelu gwerth gwirioneddol y ffrwd incwm o ffioedd ar gyfer GLITEF a gostwng lefelau'r sybsideiddio gan y trethdalwr.

46. Mae ffi'r cais am ysgariad wedi'i gosod yn uwch na chost y gwasanaeth cysylltiedig ('ffi uwch'). O dan adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, mae pŵer gan yr Arglwydd Ganghellor i osod ffioedd ar lefel sy'n uwch na chost isorweddol y gwasanaeth. Rhaid cael cymeradwyaeth benodol gan y

Senedd i osod ffioedd 'uwch' ac mae'r incwm a godir yn helpu i sybsideiddio cost gwasanaethau tebyg eraill sy'n adennill llai na'u cost neu sydd yn cael eu darparu heb godi ffi.

47. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod ffi'r cais am ysgariad, fel ffi 'uwch', yn uchel o gymharu â ffioedd eraill sy'n ymwneud ag achosion yn y llysoedd teulu. Mae diogelu mynediad at gyfiawnder o'r pwys mwyaf ac mae'r llywodraeth wedi ystyried yn ofalus y pryderon a godwyd ynghylch fforddiadwyedd yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn cynnwys y perygl y byddai cynyddu'r ffi ysgariad yn gallu atal pobl (yn enwedig menywod a'r rheini mewn perthynas gamdriniol) rhag dod â cheisiadau i'r llys, ac felly aros mewn perthynas anhapus.

48. Diweddarwyd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer ceisiadau am ysgariad yn 2022 fel ei fod yn gwbl ddigidol ac yn caniatáu ceisiadau ar y cyd yn rhan o Raglen Ddiwygio GLITEF, a gafodd ei lansio yn 2016 i wella'r system gyfiawnder a'i gwneud yn fwy hygyrch i'w defnyddwyr. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y system gyfiawnder yn aros yn hygyrch i bawb ac mae hyn yn cynnwys cadw ffioedd yn gymesur â'r gwasanaeth cysylltiedig. Gyda golwg ar hyn, rydym wedi penderfynu peidio â chynyddu'r ffi ysgariad ar hyn o bryd. Felly bydd yn aros ar ei gwerth presennol o £593.

49. Rydym yn deall bod pryderon gan awdurdodau lleol ynghylch cyllidebau mewn perthynas â chynyddu'r ffi am RTLOs. Dyma pam mae'r cynnydd mewn ffioedd yn adlewyrchu rhan yn unig o'r cynnydd yn y CPI, yn hytrach na'r cynnydd llawn o 17.8% rhwng Mawrth 2021 a Mawrth 2023. Yn ôl ein hasesiad, mae cynnydd o £1 yn y ffi RTLO yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng sicrhau bod ffioedd yn aros yn fforddiadwy i awdurdodau lleol a sicrhau bod GLITEF yn cael ei gyllido'n briodol, gan sicrhau hefyd fod y costau a ysgwyddir wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhannu rhwng y sector cyhoeddus a'r trethdalwr.

50. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod oedi wedi digwydd wrth brosesu grantiau profiant, a bod hyn wedi cynyddu o ganlyniad i gael nifer uwch na'r cyfartaledd o geisiadau ers y pandemig. Yn 2022, cafwyd 292,303 o geisiadau am brofiant, y nifer mwyaf a gofnodwyd yn y blynyddoedd diwethaf.[7] Wrth ymateb, rydym wedi cymryd camau i wella perfformiad a lleihau achosion yr oedi. Rydym wedi recriwtio a hyfforddi mwy o staff er mwyn cynyddu nifer y grantiau sy'n cael eu prosesu, a gwelsom welliannau cyson yn yr allbwn o ganlyniad i hyn. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau yn y canllawiau i ddefnyddwyr er mwyn rhoi mwy o gymorth i ddefnyddwyr i lenwi ceisiadau'n gywir y tro cyntaf. Rydym wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth profiant ac, ar ôl gwneud y newidiadau hyn, rydym yn disgwyl y bydd y gwelliannau'n parhau.

51. Ar hyn o bryd, mae'r ffi profiant yn daladwy ar ystadau sydd â gwerth o fwy na £5,000 yn unig a gellir ei hadennill o'r ystad unwaith y rhoddwyd grant profiant. Yn unol ag

[7] Cafwyd y ffigur hwn yn Family Court Statistics Quarterly: July to September 2023 - GOV.UK

egwyddorion Trysorlys EF sydd wedi'u hamlinellu yn *Managing Public Money*, mae'r ffi profiant wedi'i phennu gyda'r bwriad o adennill y gost i GLITEF am ddarparu ei wasanaethau oddi wrth y defnyddwyr hynny sy'n gallu fforddio ffi, ac mae'r cynllun Help i Dalu Ffioedd ar gael i'r rheini sydd â llai o adnoddau ariannol. Yn unol â dyletswydd statudol yr Arglwydd Ganghellor i sicrhau bod adnoddau digonol gan GLITEF i ddarparu ei wasanaethau, bydd yr incwm ychwanegol a godir drwy gynyddu'r ffi profiant yn cyfrannu at welliannau parhaus wrth ddarparu'r gwasanaeth.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i wneud cynyddiadau cynyddrannol, mwy rheolaidd ar sail chwyddiant a chostau i ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd bob dwy flynedd, yn hytrach na newidiadau llai aml ond mwy sylweddol ar sail ad hoc?**

52. Cawsom 46 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd 35% yn cytuno bod y cynnig hwn yn well na gwneud newidiadau ad hoc gan y byddai'n lleihau'r effaith ar ddefnyddwyr, yn darparu ar gyfer cynllunio cyllidebau ac yn sicrhau cysondeb wrth bennu ffioedd.

53. O'r 40% a roddodd 'nac ydw' yn ateb, roedd rhai'n dadlau y byddai dull eilflwydd o gynyddu ffioedd yn addas dim ond os oedd mathau eraill o ffioedd a chostau cysylltiedig (yn cynnwys hysbysiadau taliadau cosb a chostau adenilladwy penodedig) yn cael eu diweddaru hefyd i sicrhau cysondeb.

54. Roedd nifer o ymatebwyr eraill wedi mynegi pryderon ynghylch tryloywder ac yn teimlo y byddai cynyddu ffioedd yn rheolaidd yn golygu na fyddai asesiad llawn o ffioedd ar sail tystiolaeth yn cael ei gyflawni. Eu hawgrym oedd y dylid cyhoeddi ymgynghoriad bob tro y bydd cynnig i gynyddu ffioedd, fel bod modd asesu a chraffu ar y cynyddiadau mewn ffordd briodol.

## Ymateb y llywodraeth

55. Mae'r llywodraeth yn credu y bydd cynyddu ffioedd yn rheolaidd ar raddfa lai ar sail chwyddiant yn ffordd i leihau'r effaith ariannol ar ddefnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd o gymharu â newidiadau afreolaidd ad hoc. Yn ogystal â hyn, bydd ffioedd yn cael eu cysoni'n well drwy'r amser â'r costau a ysgwyddir gan GLITEF, gan ddarparu ffrwd incwm gynaliadwy a'i wneud yn llai dibynnol ar sybsideiddio gan y trethdalwr.

Drwy sefydlu dull rheolaidd o gynyddu ffioedd ar sail chwyddiant, hyrwyddir cysondeb ar draws y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth yr Alban yn adolygu ac yn diweddaru ei ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd bob tair blynedd ac mae adrannau eraill llywodraeth y DU hefyd yn cymryd camau tebyg wrth gynyddu ffioedd a thaliadau eraill. Er enghraifft,

mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio'r CPI wrth bennu trothwyon ar gyfer budd-daliadau a phensiwn y wladwriaeth. Dylid cysoni prosesau tebyg rhwng gwahanol adrannau llywodraeth lle bo modd.

56. Er y byddai ffioedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd bob dwy flynedd, parheir i asesu ffioedd fesul un i ganfod amrywiadau yn eu cost, eu haddasrwydd i'w cynyddu wrth ystyried mynediad at gyfiawnder a newidiadau yn y CPI. Felly, ni fydd y cynnydd mewn ffioedd a weithredir yn 2024 yn gosod cynsail ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol; hefyd, nid yw'r dull hwn o weithredu yn rhwystr rhag gwneud newidiadau yn lefelau ffioedd y tu allan i'r rheolwaith dwy flynedd a gynigir.

57. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i'r llywodraeth lansio ymgynghoriad cyhoeddus llawn cyn newid ffioedd, rydym yn gweld gwerth mawr yn y mewnbwn a gawn gan randdeiliaid am ein cynigion. Byddwn yn parhau i gymryd camau i ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol o fewn y farnwriaeth, a hynny o sefydliadau neu grwpiau eraill y credwn eu bod yn debygol o fod â buddiant proffesiynol penodol mewn cynigion perthnasol ar ffioedd, a byddwn yn eu hysbysu mewn da bryd am unrhyw newidiadau mewn ffioedd sydd i ddod.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ar y cynnig i gynyddu ffi'r gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, a chynnal ei gwerth presennol o £0.50c?**

58. Cawsom 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac roedd 19 o ymatebwyr wedi datgan nad oedd ganddynt farn na sylwadau ychwanegol i'w rhannu. O blith yr ymatebwyr eraill, roedd 5 yn cytuno gan ddweud na fyddai gwneud ffi'r gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn ffi uwch yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr, a'i bod yn ddoeth cadw ei gwerth ar £0.50c o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Roedd yr ymateb gan 4 ymatebydd arall yn aneglur ac roedd yn ymddangos eu bod wedi camddeall y cynnig. Roedd un ymatebydd yn credu y dylai'r ffi aros yn sefydlog, ond nid oedd yn glir a oedd yn cytuno â'r cynnig i gadw'r ffi ar £0.50c neu'n gwrthwynebu troi'r ffi yn ffi uwch; tra oedd eraill yn credu bod y ffi i gael ei chynyddu ac wedi tynnu sylw at yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar unigolion sydd mewn sefyllfa ariannol fregus.

59. Dim ond 2 ymatebydd a anghytunai'n llwyr, er eu bod hwythau'n cymryd bod y ffi yn cael ei chynyddu.

## Ymateb y llywodraeth

60. Ceir nifer mawr o geisiadau bob blwyddyn gan awdurdodau lleol am orchmynion atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Gan fod ffi o £0.50c yn cael ei chodi am hyn ar hyn o

bryd, mae cost y gwasanaeth hwn yn gallu amrywio’n gyson o ychydig geiniogau. Drwy ailddatgan y ffi hon o dan y pŵer uwch sydd yn adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, ni fydd cost ychwanegol i’r trethdalwr am addasu lefel y ffi yn rheolaidd ac am osod offeryn statudol i sicrhau bod lefel y ffi yn cyfateb i’r gost.

61. Rydym yn bwriadu cadw’r ffi ar ei gwerth presennol o £0.50c oni bai fod cost y gwasanaeth cysylltiedig yn cynyddu’n uwch na’r gwerth hwn. Os bydd hynny’n digwydd, byddem yn ceisio gosod y ffi ar werth sy’n adennill y gost. Gweithredir y newid hwn drwy offeryn statudol cadarnhaol yn haf 2024.

**Cwestiwn 6: Beth yn eich barn chi yw effeithiau cydraddoldeb y cynigion ar unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes mathau o ddulliau lliniaru sy’n berthnasol i’r effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi’u hystyried?**

62. Cawsom 28 o ymatebion i’r cwestiwn hwn. Roedd 63% o ymatebwyr heb ddatgan barn, heb ymateb i’r cwestiwn hwn, neu’n credu nad oedd unrhyw ystyriaethau o ran cydraddoldeb i’w nodi.

63. Roedd y 37% o ymatebwyr sy’n weddill yn teimlo y byddai’r cynigion yn cael effaith anghymesur ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig menywod (yn cynnwys dioddefwyr cam-drin domestig). Roedd un ymatebydd wedi tynnu sylw at ffactorau economaidd sy’n effeithio ar ddefnyddwyr llys sy’n fenywod, fel y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Roedd tri ymatebydd wedi cyfeirio’n benodol at ysgariad, gan ddweud y byddai cynnydd mewn ffioedd yn creu mwy o berygl i fenywod un ai peidio â gwneud cais am ysgariad o gwbl neu brofi oedi wrth geisio dod o hyd i’r arian sydd ei angen. Nodweddion gwarchodedig eraill a nodwyd oedd y rheini sydd gan leiafrifoedd ethnig, a’r rheini sydd ag anableddau.

64. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd wedi gwneud sylwadau a oedd heb fod yn berthnasol i grwpiau defnyddwyr sydd â nodweddion gwarchodedig. Ymhlith y rhain roedd sylwadau am y rheini sydd ag anghenion ariannol mwy ac awdurdodau lleol.

## Ymateb y llywodraeth

65. Wrth ddatblygu’r cynigion gwreiddiol, roedd y llywodraeth wedi mynd ati’n ofalus i adolygu’r holl ffioedd y llysoedd a’r tribiwnlysoedd er mwyn canfod pa rai roedd yn briodol eu cynyddu 10%, gan gymryd mynediad at gyfiawnder a fforddiadwyedd i ystyriaeth. Rydym yn cydnabod y bydd effaith anghymesur ar rai grwpiau defnyddwyr o ganlyniad i gynyddu ffioedd llys, a dyna pam rydym wedi penderfynu pasio ymlaen ddim ond rhan o’r newid yn y CPI, a oedd wedi cynyddu 17.8% rhwng Mawrth 2021 a

Mawrth 2023. Er mwyn rhoi amddiffyniad pellach i'r grwpiau defnyddwyr hynny a allai ei chael yn anodd fforddio ffi llys, rydym wedi sicrhau bod ein cynllun dileu ffioedd diwygiedig Help i Dalu Ffioedd wedi'i roi ar waith cyn cyflwyno'r cynnydd hwn mewn ffioedd. Mewn achosion lle nad yw defnyddwyr â nodweddion gwarchodedig yn gymwys ar gyfer Help i Dalu Ffioedd, mae'r Arglwydd Ganghellor yn cadw pŵer disgresiynol eithriadol i hepgor ffi. Cyhoeddwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldebau gyda'r ymateb hwn, yn disgrifio effeithiau'r cynnydd mewn ffioedd ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â disgrifiadau mwy manwl o'r mesurau lliniaru rydym wedi'u cyflwyno. Mae'r asesiad ar gael yma: https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees

66. Mewn perthynas â grwpiau eraill a grybwyllwyd gan ymatebwyr sydd heb nodwedd warchodedig benodol, mae'r effaith fwy cyffredinol y byddai'r cynnydd mewn ffioedd yn gallu ei chael ar ddefnyddwyr wedi cael ei thrafod yn yr asesiad o'r effaith sydd hefyd wedi'i adolygu a'i gyhoeddi gyda'r ymateb hwn. Mae ar gael yma: https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-fees

# Asesiad o'r effaith, cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg

## Asesiad o'r effaith

67. Mae diweddariad o'r asesiad o'r effaith wedi cael ei baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

## Cydraddoldebau

68. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i ni ystyried effeithiau'r cynigion polisi ar gydraddoldebau mewn perthynas â'r canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu

69. At ddibenion yr asesiad cydraddoldeb, y nodweddion gwarchodedig perthnasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: hil; rhyw; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; crefydd a chred; oed; priodas a phartneriaeth sifil; ailbennu rhywedd; a beichiogrwydd a mamolaeth.

70. Mae diweddariad o'r datganiad cydraddoldebau wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

## Prawf effaith ar y Gymraeg

71. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar y rheini sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys newidiadau mewn ffioedd sydd hefyd yn effeithio ar ddefnyddwyr y llysoedd sy'n siarad Cymraeg, er na ddylai amharu'n anghymesur ar eu dealltwriaeth o ffioedd.

72. https://www.gov.uk/government/consultations/implementing-increases-to-selected-court-and-tribunal-feesDarperir copi Cymraeg o'r asesiad o'r effaith a'r datganiad cydraddoldebau ar gais.

# Casgliad a'r camau nesaf

73. Mae'r llywodraeth wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus. Mae'r Arglwydd Ganghellor o dan ddyletswydd i ddiogelu mynediad at gyfiawnder ac, er mwyn gwneud hyn, mae'n hollbwysig bod GLITEF yn cael cyllid digonol. Drwy gynyddu ffioedd i adlewyrchu newidiadau yn lefel gyffredinol prisiau, bydd mwy o allu i gynnal y system llysoedd a thribiwnlysoedd gan leihau'r gost i'r trethdalwr hefyd.

74. Byddwn yn bwrw ymlaen i gyflwyno cynnydd o 10% mewn 172 o ffioedd gan ddilyn yn rhannol y newidiadau yn y CPI ers cynyddu ffioedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd y tro diwethaf yn 2021.[8] Ar ôl ystyried pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad mewn perthynas â chynnydd yn y ffi ysgariad, rydym wedi penderfynu peidio â chynyddu'r ffi ysgariad fel a gynigiwyd yn wreiddiol. Gan ei bod eisoes yn ffi uwch a bod y gwasanaeth cysylltiedig wedi'i symleiddio drwy ddigideiddio a chyflwyno ysgariad heb fai, rydym yn cytuno na fyddai ei chynyddu yn gymesur ar hyn o bryd. Bydd yn aros ar ei gwerth presennol o £593.

75. Mae rhestr lawn o'r ffioedd sydd wedi'u cynnwys a'u gwerth diwygiedig yn **Atodiad B**.

76. Gweithredir y cynnydd yn y 172 o ffioedd drwy offeryn statudol negyddol a ddaw i rym ym Mai 2024. Bydd y newidiadau'n cynnwys diwygio ffioedd yn y Gorchmynion Ffioedd canlynol:

- Rheoliadau Cofrestru Gweithredoedd (Ffioedd) 1994
- Gorchymyn Ffioedd Profiant Di-gynnen 2004
- Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007
- Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008
- Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008
- Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008
- Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009
- Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010

[8] Ar gyfartaledd, bydd y ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn cynyddu 10%. Fodd bynnag, mae cynyddiadau mewn ffioedd wedi'u talgrynnu i'r bunt agosaf, felly mae rhai o'r gwerthoedd ffi newydd yn hafal i lai na 10% ac mae rhai'n fwy na 10% (ond dim mwy na 12.5%).

- Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiadau Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011
- Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013

77. Yn ogystal â hyn, bydd y llywodraeth yn diweddaru ffioedd yn rheolaidd i roi cyfrif am newidiadau mewn costau ac yn y CPI bob dwy flynedd, gan gynnal yr adolygiad nesaf yn 2025/26, i baratoi ar gyfer eu gweithredu yn 2026. Bydd y dull hwn o weithredu yn gyson â'r un mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus ac yn sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu'r costau am ddarparu gwasanaethau'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Gan y bydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd, ni fyddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob tro y caiff ffioedd eu diweddaru fel hyn ond byddwn yn parhau i ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol yr Arglwydd Ganghellor mewn ffordd amserol.

78. Yn olaf, bydd y llywodraeth hefyd yn cymryd camau i osod ffi'r gorchymyn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn uwch na'i chost gan ddefnyddio'r pŵer 'uwch' yn adran 180 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae cost y gwasanaeth hwn yn amrywio'n gyson, felly drwy ei gosod yn uwch na'r gost ni fydd angen addasu'r ffi yn rheolaidd i'w chadw ar lefel y gost a gosod offeryn statudol bob tro y gwneir newid, gan osgoi costau ychwanegol i'r trethdalwr. Gweithredir y newid hwn drwy offeryn statudol cadarnhaol yn haf 2024.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Aelod o'r cyhoedd x 6

Birkett Long LLP

Bwrdeistref Barking a Dagenham yn Llundain

Bwrdeistref Camden yn Llundain

Bwrdeistref Frenhinol Kingston upon Thames

Cabot Credit Management

Clough and Willis

Coninghams Solicitors

Crosse Wyatt Solicitors

Cyngor Cyfiawnder Sifil

Cyngor Bwrdeistref Rushmoor

Cyngor Bwrdeistref Wokingham

Cyngor Dinas Doncaster

Cyngor Kirklees

Cyngor Sir Caint

Cyngor Swydd Buckingham

Cyngor y Bar

Cymdeithas Cyfreithwyr Niwed Personol

Cymdeithas Cyfreithwyr Surrey

Cymdeithas Defnyddwyr Llysoedd Sifil (CCUA)

Cymdeithas Parcio Prydain

Cymdeithas Sefydliadau Cymorth Defnyddwyr (ACSO)

Cymdeithas Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Dexter Montague LLP x 2

Divorce Online

EQUANS

Everys Solicitors

Fiona Bruce LLP

Ffederasiwn Busnesau Bach

Fforwm y Cyfreithwyr Yswiriant

Linda Filby

Lovetts Solicitors

Mayo Wynne Baxter LLP

Moore Northern Home Counties Cyfyngedig

Prifysgol Northumbria

Resolution

Restons Solicitors

Rich and Carr Solicitors

Schofield Sweeney

Stewarts

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Durham

Thompsons Solicitors

Women's Budget Group

Y Gwir Anrhydeddus Syr Colin Birss (Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil)

Y Gwir Anrhydeddus Syr Geoffrey Vos (Meistr y Rholiau)

# Atodiad B – Rhestr derfynol o'r newidiadau mewn ffioedd

Mae'r tablau isod yn dangos manylion y ffioedd sydd i gael eu cynyddu, gan gynnwys y ffi bresennol, y ffi newydd a'r cynnydd. Mae'r newidiadau arfaethedig yn y ffioedd wedi'u rhannu o dan y gwahanol orchmynion ffioedd lle cyfeirir atynt.

## Rheoliadau Cofrestru Gweithredoedd (Ffioedd) 1994 Rhif 601

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y Rheoliadau Cofrestru Gweithredoedd (Ffioedd) yn cynnwys y ffi am gofrestru gweithred newid enw.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cam 51 – gweithred newid enw Mainc y Brenin (am gofrestru gweithred) | £10 | £11 | £1 |

## Gorchymyn Ffioedd Profiant Di-gynnen 2004 Rhif 3120

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y Gorchymyn Ffioedd Profiant Di-gynnen yn cynnwys grantiau profiant a ffioedd adneuo ewyllysiau.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cais am grant profiant (ystad yn fwy na 5000 GBP) | £273 | £300 | £27 |
| 3.2 | Grant profiant ar gyfer ystad sy'n esempt rhag treth etifeddiant | £10 | £11 | £1 |
| 6 | Adneuo ewyllysiau | £20 | £22 | £2 |
| 9.1 | Am bob deponiwr i bob affidafid | £11 | £12 | £1 |

## Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 Rhif 1745

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd y Llys Gwarchod yn cynnwys y ffi i wneud cais am weithred o dan, gwrandawiad o dan neu apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **4** | Ffi gwneud cais (Erthygl 4) | £371 | £408 | £37 |
| **5** | Ffi Apêl (Erthygl 5) | £234 | £257 | £23 |

## Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd Llysoedd Ynadon yn cynnwys ffioedd fel ffioedd gwneud cais, ffioedd apelio, ffioedd am ddyroddi dogfennau a ffioedd am godi gwarantau.[9]

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Cais am gyflawni swyddogaeth gan ynad heddwch nad yw ar safle'r llys | £25 | £28 | £3 |
| **2.1** | Cais am ddatgan achos i gael barn yr Uchel Lys | £137 | £151 | £14 |
| **2.2** | Apêl (gorchymyn didynnu o enillion) | £19 | £21 | £2 |
| **2.3** | Apêl - achos o dan Atodlen 5, Deddf Trwyddedu 2003 | £62 | £68 | £6 |
| **2.4** | Apêl (lle na phennwyd ffi arall) | £62 | £68 | £6 |
| **3.1** | Cais am dystysgrif gwrthod datgan achos | £105 | £116 | £11 |
| **3.2** | Cais am dystysgrif bodlonrwydd | £16 | £18 | £2 |
| **3.4** | Cais am dystysgrif/dogfen ardystiedig (lle na phennwyd ffi arall) | £20 | £22 | £2 |
| **6.1** | Cais am drwydded/cydsyniad/awdurdod (lle na phennwyd ffi arall) | £27 | £30 | £3 |

9 Sylwer nad yw help i dalu ffioedd ar gael ar gyfer ffioedd am gopïau.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **6.2** | Cais am adnewyddu/amrywio trwydded bresennol | £27 | £30 | £3 |
| **6.3** | Cais am ddirymu trwydded (lle na phennwyd ffi arall) | £27 | £30 | £3 |
| **7.1** | Wrth gymryd ardystiad swyddog heddlu neu swyddog heddlu gwirfoddol | £11 | £12 | £1 |
| **7.2** | Am bob pob llw (etc) lle na phennwyd ffi arall | £27 | £30 | £3 |
| **8.1** | Cychwyn achos lle na phennwyd ffi arall | £226 | £249 | £23 |
| **8.2a** | Cais am ganiatâd i gychwyn achos (lle na phennwyd ffi arall) | £125 | £138 | £13 |
| **8.2b** | Cychwyn achos lle rhoddwyd caniatâd | £125 | £138 | £13 |
| **9.2** | Cais am unrhyw warant arall (lle na phennwyd ffi arall) | £81 | £89 | £8 |
| **10.2** | Cais am warant garcharu (Deddf Cynnal Plant 1991) | £41 | £45 | £4 |

## Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y gorchymyn ffioedd Achosion Teulu yn cynnwys ffioedd fel achosion a ddygwyd ymlaen o dan Ddeddf Plant 1989, ffioedd yn ymwneud ag ysgariad a ffioedd am godi gwarantau.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Cychwyn achos lle na phennwyd ffi arall | £245 | £270 | £25 |
| **1.3** | Cais am orchymyn priodasol neu bartneriaeth sifil | £365 | £402 | £37 |
| **1.7** | Wrth wneud cais am orchymyn asesu costau | £50 | £55 | £5 |
| **1.8** | Cais am orchymyn rhieni | £232 | £255 | £23 |
| **2.1a** | Cyfrifoldeb rhieni (adran 4(1)(c) neu (3), 4A(1)(b) neu (3) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **2.1b** | Cyfrifoldeb rhieni (adran 4ZA(1)(c) neu (6) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1c** | Gwarcheidwaid (adran 5(1) neu 6(7) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1d** | Gorchmynion adran 8 (adran 10(1) neu (2) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1e** | Gorchmynion gorfodi (adran 11J(2) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1f** | Digolledu am golled ariannol (adran 11O(2) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1g** | Newid cyfenw plentyn neu ei symud o'r awdurdodaeth tra bydd gorchymyn preswylio mewn grym (adran 13(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1h** | Gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (adran 14A(3) neu (6)(a), 14C(3) neu 14D(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1i** | Gorchymyn llety diogel (adran 25 Deddf Plant 1989) – Lloegr | £232 | £255 | £23 |
| **2.1ia** | Gorchymyn llety diogel (adran 119 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) – Cymru | £232 | £255 | £23 |
| **2.1j** | Newid cyfenw plentyn neu ei symud o'r awdurdodaeth tra bydd gorchymyn gofal mewn grym (adran 33(7) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1k** | Cyswllt â phlentyn mewn gofal (adran 34(2), (3), (4) neu (9) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1l** | Gorchymyn goruchwyliaeth addysg (adran 36(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1m** | Amrywio neu ryddhau etc gorchmynion gofal a goruchwylio (adran 39 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **2.1n** | Gorchymyn asesu plentyn (adran 43(1) Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1o** | Gorchmynion amddiffyn brys (adrannau 44, 45 a 46 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1p** | Gwarant i gynorthwyo person sy'n arfer pwerau o dan orchymyn amddiffyn brys (adran 48 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1q** | Gorchymyn adfer (adran 50 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1s** | Gwarant i gynorthwyo person sy'n arfer pwerau i chwilio am blant neu archwilio mangreoedd (adran 102 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1t** | Ceisiadau mewn perthynas â gorchmynion gorfodi (paragraff 4(2), 6(2), 7(2) neu 9(2) Atodlen A1 Deddf Plant 1989) | £102 | £112 | £10 |
| **2.1u** | Diwygio gorchymyn gorfodi oherwydd newid cyfeiriad (paragraff 5(2) Atodlen A1 Deddf Plant 1989) | £70 | £77 | £7 |
| **2.1v** | Darpariaeth ariannol ar gyfer plant (paragraff 1(1) neu (4), 2(1) neu (5), 5(6), 6(5), (7) neu (8), 8(2), 10(2), 11 neu 14(1) Atodlen 1 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1w** | Cymeradwyaeth gan lys i blentyn yng ngofal awdurdod lleol i fyw dramor (paragraff 19(1) Atodlen 2 Deddf Plant 1989) – Lloegr | £232 | £255 | £23 |
| **2.1wa** | Cymeradwyaeth gan lys i blentyn yng ngofal awdurdod lleol i fyw dramor (adran 124(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) - Cymru | £232 | £255 | £23 |
| **2.1x** | Ymestyn gorchymyn goruchwylio (paragraff 6 Atodlen 3 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **2.1y** | Ymestyn neu ryddhau gorchymyn goruchwyliaeth addysg (paragraff 15(2) neu 17(1) Atodlen 3 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.1z** | Apeliadau yn ymwneud â rhieni maeth (paragraff 8(1) Atodlen 8 Deddf Plant 1989) | £232 | £255 | £23 |
| **2.2** | Cais am achos o dan Adran 31 Deddf Plant 1989 (gorchmynion gofal a goruchwylio) | £2,215 | £2,437 | £222 |
| **2.3** | Apêl yn ymwneud â 2.1(a) i 2.1(s), (v) i (y) a 2.2 | £215 | £237 | £22 |
| **2.4** | Apêl yn erbyn gorchymyn cyfrannu - Lloegr | £215 | £237 | £22 |
| **2.5** | Apêl yn erbyn gorchymyn cyfrannu – Cymru | £215 | £237 | £22 |
| **2.6a** | Adran 72 – canslo, amrywio, dileu neu osod amod ar gofrestriad gwarchodwr plant neu ofalwr dydd (Lloegr) | £232 | £255 | £23 |
| **2.6b** | Adran 34 – canslo cofrestriad gwarchodwr plant neu ofalwr dydd (Cymru) | £232 | £255 | £23 |
| **2.7** | Cychwyn apêl gwarchodwr plant neu ofalwr dydd (Cymru neu Loegr) | £215 | £237 | £22 |
| **3.1** | Cais/caniatâd i wneud cais am fabwysiadu | £183 | £201 | £18 |
| **3.2** | Cais am orchymyn lleoli (o dan Adran 22 Deddf Plant 1989) | £490 | £539 | £49 |
| **3.3** | Cais i'r Uchel Lys mewn cysylltiad ag awdurdodaeth gynhenid mewn perthynas â phlant | £183 | £201 | £18 |
| **5.1** | Cais (heb hysbysiad) | £53 | £58 | £5 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **5.2** | Cais am decree nisi, gorchymyn amodol, gorchymyn gwahanu (dim ffi os na chaiff ei amddiffyn) | £54 | £59 | £5 |
| **5.3** | Cais (ar ôl rhoi hysbysiad) (oni restrwyd ef fel arall) | £167 | £184 | £17 |
| **5.4** | Cais am orchymyn ariannol (ac eithrio gorchymyn cydsynio) | £275 | £303 | £28 |
| **6.1** | Ffeilio hysbysiad apêl gan farnwr rhanbarth, un neu fwy o ynadon lleyg, clerc ynadon neu gynorthwyydd clerc ynadon | £125 | £138 | £13 |
| **9.4** | Apêl (achos asesiad manwl) - Teulu | £210 | £231 | £21 |
| **9.5** | Cais am roi tystysgrif costau diffygdalu o'r neilltu | £110 | £121 | £11 |
| **10.2** | Cais am gofrestru gorchymyn cynhaliaeth o dan Ddeddf Gorchmynion Cynhaliaeth 1950 neu 1958 | £50 | £55 | £5 |
| **11.1** | Cais am orchymyn ar gyfer darpariaeth ariannol | £215 | £237 | £22 |
| **12.1** | Cais am holi dyledwr mewn dyfarniad neu berson arall | £54 | £59 | £5 |
| **12.2** | Cais am orchymyn dyled trydydd parti/penodi derbynnydd | £77 | £85 | £8 |
| **12.3** | Cais am orchymyn arwystlo | £38 | £42 | £4 |
| **12.4** | Cais am wŷs dyfarniad | £73 | £80 | £7 |
| **12.5** | Cais am orchymyn atafaelu enillion - Teulu | £34 | £37 | £3 |
| **13.1** | Cais am orfodi dyfarniad neu orchymyn – gwarant rheolaeth yn erbyn nwyddau | £100 | £110 | £10 |
| **13.3** | Cais am warant meddiant neu warant gyflenwi | £119 | £131 | £12 |
| **14.1** | Selio gwrit darafaeliad/meddiant/cyflenwi | £60 | £66 | £6 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **14.2** | Wrth ofyn neu wneud cais am gofrestru dyfarniad neu orchymyn; neu am ganiatâd i orfodi dyfarniad cyflafareddu; neu am gopi ardystiedig o ddyfarniad neu orchymyn i'w ddefnyddio dramor | £60 | £66 | £6 |
| **17.1** | Cymryd affidafid/cadarnhad/ardystiad ar lw | £11 | £12 | £1 |

## Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas y gorchmynion ffioedd Achosion Sifil yn cynnwys ffioedd ceisiadau cyffredinol, ffioedd yn ymwneud â rhwymedïau eraill, a ffioedd yn ymwneud â dyroddi tystysgrifau neu orchmynion penodol.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.4a** | Adfeddiannu tir (Yr Uchel Lys) | £480 | £528 | £48 |
| **1.4b** | Adfeddiannu tir (Llys Sirol) | £355 | £391 | £36 |
| **1.5CC** | Unrhyw rwymedi arall (Llys Sirol) | £332 | £365 | £33 |
| **1.5HC** | Unrhyw rwymedi arall (Yr Uchel Lys) | £569 | £626 | £57 |
| **1.6** | Ffeilio achos yn erbyn parti heb ei enwi | £59 | £65 | £6 |
| **1.8a** | Caniatâd i gychwyn achos | £59 | £65 | £6 |
| **1.8b** | Asesiad o gostau (o dan Ran 3, Deddf Cyfreithwyr 1974) | £59 | £65 | £6 |
| **1.9a** | Am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol | £154 | £169 | £15 |
| **1.9b** | Wrth wneud cais i ofyn am ailystyried mewn gwrandawiad benderfyniad ar ganiatâd | £385 | £424 | £39 |
| **1.9c** | Caniatâd i fwrw ymlaen ag adolygiad barnwrol os cychwynnwyd â chais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol | £770 | £847 | £77 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.9d** | Caniatâd i fwrw ymlaen ag adolygiad barnwrol os cychwynnwyd heblaw drwy wneud cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol | £154 | £169 | £15 |
| **2.2** | Hysbysiad yr apelydd/atebydd (Yr Uchel Lys) | £259 | £285 | £26 |
| **2.3a** | Hysbysiad yr apelydd/atebydd (Hawliadau bychain y Llys Sirol) | £129 | £142 | £13 |
| **2.3b** | Hysbysiad yr apelydd/atebydd (Hawliadau eraill y Llys Sirol) | £151 | £166 | £15 |
| **2.4(a)** | Cais cyffredinol (ar ôl rhoi hysbysiad) heb gynnwys Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa'r Llys | £275 | £303 | £28 |
| **2.4(b)** | Cais cyffredinol (ar ôl rhoi hysbysiad) Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa'r Llys | £167 | £184 | £17 |
| **2.5(a)** | Cais cyffredinol (drwy gydsynio/heb roi hysbysiad) heb gynnwys Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa'r Llys | £108 | £119 | £11 |
| **2.5(b)** | Cais cyffredinol (drwy gydsynio/ heb roi hysbysiad) Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 a Thaliad Cronfa'r Llys | £54 | £59 | £5 |
| **2.7** | Wrth wneud cais am amrywio dyfarniad neu atal gorfodaeth | £14 | £15 | £1 |
| **2.8** | Dyroddi tystysgrif bodlonrwydd | £14 | £15 | £1 |
| **3.1b** | Deiseb am fethdaliad (a gyflwynwyd gan gredydwr/person arall) | £302 | £332 | £30 |
| **3.2** | Deiseb am orchymyn gweinyddu | £302 | £332 | £30 |
| **3.3** | Unrhyw ddeiseb arall | £302 | £332 | £30 |
| **3.5** | Ansolfedd – cais arall | £280 | £308 | £28 |
| **3.8** | Hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr | £50 | £55 | £5 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **3.11** | Cais o fewn achos (drwy gydsynio/heb hysbysiad) | £26 | £29 | £3 |
| **3.12** | Cais o fewn achos ansolfedd (ar ôl rhoi hysbysiad, lle na phennwyd ffi arall) | £99 | £109 | £10 |
| **5.3** | Dyroddi tystysgrif costau diffygdalu – Sifil | £71 | £78 | £7 |
| **5.4** | Apêl (achos asesu manwl ) – Sifil | £249 | £274 | £25 |
| **5.5** | Gofyn/gwneud cais am roi tystysgrif costau diffygdalu o'r neilltu | £130 | £143 | £13 |
| **6.1** | Wrth ffeilio cais am asesiad manwl ar gyfer y Llys Gwarchod | £87 | £96 | £9 |
| **6.2** | Apêl yn erbyn penderfyniad asesu costau gan y Llys Gwarchod | £70 | £77 | £7 |
| **6.3** | Gofyn am roi tystysgrif costau diffygdalu y Llys Gwarchod o'r neilltu | £65 | £72 | £7 |
| **7.1** | Selio gwrit rheolaeth/meddiant/cyflenwi (Yr Uchel Lys) | £71 | £78 | £7 |
| **7.2** | Gorchymyn yn mynnu bod dyledwr mewn dyfarniad neu berson arall yn dod i'r llys | £59 | £65 | £6 |
| **7.3a** | Gorchymyn dyled trydydd parti neu benodi derbynnydd er mwyn cael darafaeliad teg | £119 | £131 | £12 |
| **7.3b** | Cais am orchymyn arwystlo | £119 | £131 | £12 |
| **7.4** | Cais am wŷs dyfarniad | £119 | £131 | £12 |
| **7.5** | Cofrestru dyfarniad neu orchymyn, neu am ganiatâd i orfodi dyfarniad cyflafareddu, neu am dystysgrif neu gopi ardystiedig o ddyfarniad neu orchymyn i'w ddefnyddio dramor | £71 | £78 | £7 |
| **8.1** | Codi gwarant reolaeth | £83 | £91 | £8 |
| **8.2** | Cais am ymgais i weithredu gwarant mewn cyfeiriad newydd | £33 | £36 | £3 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **8.3** | Gorchymyn yn mynnu bod dyledwr mewn dyfarniad yn dod i'r llys | £59 | £65 | £6 |
| **8.4a** | Cais am orchymyn dyled trydydd parti | £119 | £131 | £12 |
| **8.4b** | Cais am orchymyn arwystlo | £119 | £131 | £12 |
| **8.5** | Cais am wŷs dyfarniad | £119 | £131 | £12 |
| **8.6** | Dyroddi gwarant meddiant/gwarant cyflenwi | £130 | £143 | £13 |
| **8.7** | Cais am orchymyn atafaelu enillion - Sifil | £119 | £131 | £12 |
| **8.9** | Cais am orfodi dyfarniad o swm o arian neu unrhyw benderfyniad arall a wnaed gan unrhyw lys, tribiwnlys, corff neu berson | £47 | £52 | £5 |
| **8.10** | Gofyn am orchymyn i adennill dyled traffig ffordd benodedig | £9 | £10 | £1 |
| **8A.1** | Cyflwyno gorchymyn gan feili i ddod i'r Llys Sirol ar gyfer holi | £119 | £131 | £12 |
| **10.1** | Biliau gwerthiant | £30 | £33 | £3 |
| **10.4** | Penodi barnwr Uchel Lys yn gyflafareddwr neu ddyfarnwr | £610 | £671 | £61 |
| **10.5** | Gwrandawiad gerbron barnwr Uchel Lys (am ddiwrnod neu ran o ddiwrnod) fel cyflafareddwr neu ddyfarnwr | £610 | £671 | £61 |
| **11.1** | Wrth godi gwarant i atafaelu llong neu nwyddau | £18 | £20 | £2 |
| **12.1** | Affidafid | £13 | £14 | £1 |
| **13.1a** | Ffeilio hysbysiad apelydd/atebydd yn y Llys Apêl lle gwneir cais am ganiatâd i apelio/estyn amser | £569 | £626 | £57 |
| **13.1b** | Ffeilio hysbysiad apelydd/atebydd yn y Llys Apêl lle nad yw'n ofynnol cael caniatâd i apelio neu lle rhoddwyd caniatâd i apelio | £1,292 | £1,421 | £129 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **13.1c** | Y Llys Apêl - Apelydd/atebydd yn ffeilio holiadur apêl | £1,292 | £1,421 | £129 |
| **13.3** | Y Llys Apêl – Wrth ffeilio hysbysiad o gais | £569 | £626 | £57 |

## Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) yn cynnwys ffioedd gwrandawiad ac apêl ynghylch cyfamodau cyfyngu a hawliau i olau, a cheisiadau am orchmynion cydsynio.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | Caniatâd i apelio rh21 | £220 | £242 | £22 |
| **2** | Hysbysiad cyfeirio rh28 / apêl rh24 | £275 | £303 | £28 |
| **4** | Cais cyfamod cyfyngu rh32 mewn perthynas ag a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 | £880 | £968 | £88 |
| **6** | Cais yng nghwrs achos | £110 | £121 | £11 |
| **11a** | Gwrandawiad ar hawl - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 – rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu | £550 | £605 | £55 |
| **11c** | Gwrandawiad ar sylwedd y cais gwreiddiol - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 - rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu | £1,100 | £1,210 | £110 |
| **12** | Gwrandawiad neu wrandawiad rhagarweiniol cyfeiriad/apêl (heb ddyfarnu swm) | £550 | £605 | £55 |

## Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) yn cynnwys ffioedd apelio ar gyfer gwahanol drwyddedau gweithredu gamblo.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.2** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu bingo a65(2)(b) | £3,100 | £3,410 | £310 |
| **1.6** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu gyffredinol peiriannau hapchwarae etc a65(2)(f) – canolfan hapchwarae oedolion | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.7** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 - trwydded gweithredu gyffredinol peiriannau hapchwarae – canolfan adloniant teuluoedd a65(2)(g) | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.8** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu dechnegol peiriannau hapchwarae a65 (2)(h) | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.9** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu meddalwedd gamblo a65 (2)(i) | £1,600 | £1,760 | £160 |

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.11** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded swyddfa reoli bersonol a27 | £1,600 | £1,760 | £160 |
| **1.12** | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded swyddogaeth weithredu bersonol a27 | £800 | £880 | £80 |

## Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) (Adolygiadau Barnwrol) (Cymru a Lloegr) 2011 Rhif 2011

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) yn cynnwys ceisiadau am ganiatâd a cheisiadau am adolygiad barnwrol.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Caniatâd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol | £154 | £169 | £15 |
| **1.1a** | Adolygiad Barnwrol – Adnewyddu llafar | £385 | £424 | £39 |
| **1.2** | Caniatâd ar gyfer Adolygiad Barnwrol – caniatâd i fwrw ymlaen lle cychwynnwyd achos drwy gais am ganiatâd | £770 | £847 | £77 |
| **1.3** | Caniatâd ar gyfer Adolygiad Barnwrol - caniatâd i fwrw ymlaen lle cychwynnwyd achos heblaw drwy gais am ganiatâd | £154 | £169 | £15 |
| **2.1** | Cais Cyffredinol am Adolygiad Barnwrol – Ar ôl hysbysiad (lle na phennwyd ffi arall) | £255 | £281 | £26 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.2** | Cais Cyffredinol am Adolygiad Barnwrol – drwy gydsynio neu heb hysbysiad (lle na phennwyd ffi arall) | £100 | £110 | £10 |
| **2.3** | Adolygiad Barnwrol – Cais am wŷs neu orchymyn i dyst ddod i'r Tribiwnlys | £50 | £55 | £5 |

## Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) 2013 Rhif 1179

Mae'r ffioedd sydd o fewn cwmpas gorchymyn ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) yn cynnwys penderfynu ar gostau a ffioedd i gychwyn achos.

| Cyfeirnod OS | Disgrifiad | Presennol | Arfaethedig | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Cychwyn achos (cais neu apêl) mewn achos eiddo preswyl, lle nad oes ffi arall yn gymwys | £100 | £110 | £10 |
| **1.2** | Ffeilio achos am gymeradwyo arfer pŵer mynediad | £100 | £110 | £10 |
| **1.3** | Cais cartrefi symudol (ffi llain heblaw safleoedd Awdurdodau Lleol) | £20 | £22 | £2 |
| **1.4** | Cartrefi symudol – cais am benderfyniad i ystyried cost gwelliannau'r perchennog - para 1.4 | £20 | £22 | £2 |
| **1.5** | Cartrefi symudol – penderfynu ar ffi llain awdurdod lleol | £20 | £22 | £2 |
| **1.6** | Cartrefi symudol – cais am benderfyniad i ystyried cost gwelliannau'r perchennog – para 1.6 | £20 | £22 | £2 |
| **2.1** | Hysbysiad o ddyddiad gwrandawiad ar gyfer cais 1.1 neu 1.2 - dim ond un yn daladwy os caiff ceisiadau eu cyfuno | £200 | £220 | £20 |

# Atodiad C – Ffioedd sydd heb eu cynnwys

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y 30 o ffioedd sydd heb eu cynnwys yn y dewis terfynol o ffioedd a fydd yn cynyddu 10%.

| Cyfeirnod OS | Gorchymyn Ffioedd | Disgrifiad o'r ffi | Gwerth y ffi |
|---|---|---|---|
| **2.6** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 | Wrth wneud cais am wŷs neu orchymyn i dyst ddod i'r llys | £21 |
| **3.4a** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 | Cais am dystysgrif rhyddhau o fethdaliad | £75 |
| **3.7** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 | Ffi dirwyn i ben gwirfoddol | £50 |
| **3.9** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 | Cyflwyno adroddiad enwebeion | £35 |
| **3.10** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 | Ffeilio dogfennau ansolfedd | £35 |
| **13.2** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 Rhif 1053 | Y Llys Apêl – Wrth ffeilio hysbysiad atebydd | £569 |
| **6** | Gorchymyn Ffioedd y Llys Gwarchod 2007 Rhif 1745 | Ffi gwrandawiad (Erthygl 6) | £494 |
| **1.2** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Cyflwyno cais am ysgariad, dirymu neu ddiddymu partneriaeth sifil | £593 |
| **1.5** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Diwygio cais am orchymyn priodasol neu bartneriaeth sifil | £95 |
| **1.6** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Ateb cais am orchymyn priodasol neu bartneriaeth sifil | £245 |
| **4.1** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Cais am hysbysiad rhybuddio i'w atodi i orchymyn cyswllt | £54 |
| **9.3** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Dyroddi tystysgrif costau diffygdalu – Teulu | £65 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **13.2** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Gofyn am ymgais i weithredu gwarant mewn cyfeiriad newydd | £30 |
| **15.1** | Gorchymyn Ffioedd Achosion Teulu 2008 Rhif 1054 | Cais am wasanaeth beili i gyflwyno dogfen (gweler y gorchymyn am eithriadau) | £45 |
| **1.1** | Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42 | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu casino a65(2)(a) | £14,000 |
| **1.3** | Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42 | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu betio cyffredinol a65(2)(c) | £10,000 |
| **1.4** | Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42 | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu betio cronfa a65(2)(d) | £10,000 |
| **1.5** | Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42 | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 – trwydded gweithredu cyfryngwr betio a65(2)(e) | £10,000 |
| **1.10** | Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42 | Apêl a141 Deddf Gamblo 2005 - trwydded gweithredu loteri a65(2)(j) | £9,400 |
| **2** | Gorchymyn Ffioedd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Gamblo) 2010 Rhif 42 | Apêl a337(1) Deddf Gamblo 2005 yn erbyn gorchymyn gan y Comisiwn Hapchwarae i ddirymu bet a336(1) | £9,400 |
| **3.3** | Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052 | Gofyn am gopi ardystiedig o femorandwm euogfarn | £20 |
| **4.2** | Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052 | Cais am orchymyn atebolrwydd (Deddf Cynnal Plant 1991) | £25 |
| **9.1** | Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052 | Cais am warant mynediad | £22 |
| **10.1** | Gorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon 2008 Rhif 1052 | Cais am warant garcharu (achos treth gyngor) | £264 |
| **3** | Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114 | Cais perchennog absennol Atodlen 2 Deddf Prynu Gorfodol 1965 (a) Deddf Prynu Gorfodol 1965; (b) penderfyniad syrfëwr | £550 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar ddigolledu partïon absennol o dan a.58 Deddf Cydgrynhoi Cymalau Tiroedd 1845 | |
| **5a** | Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114 | Cais hawl i olau rh41 mewn perthynas ag a2 Deddf Hawl i Olau 1959 – Tystysgrif ddiffiniol | £1,320 |
| **5b** | Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114 | Cais hawl i olau rh41 mewn perthynas ag a2 Deddf Hawl i Olau 1959 – Tystysgrif Dros Dro a Diffiniol | £1,650 |
| **7** | Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114 | Cais am orchymyn cydsynio rh50 | £165 |
| **11b** | Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114 | Gorchymyn heb wrandawiad (rh46) - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 – rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu | £275 |
| **11d** | Gorchymyn Ffioedd yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2009 Rhif 1114 | Trefn Cofnodion yn ei ffurf derfynol - a84 Deddf Cyfraith Eiddo 1925 –rhyddhau/addasu cyfamod cyfyngu | £220 |

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle’r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Gellir gofyn am fersiynau o’r adroddiad hwn mewn fformatiau eraill oddi wrth mojfeespolicy@justice.gov.uk.